Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Ddwylan
# New Road
# Castell Newydd Emlyn
# Sir Gaerfyrddin
# SA38 9AB

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/12/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol y Ddwylan yn nhref farchnad Castell Newydd Emlyn ac mae'n gwasanaethu ardal ddaearyddol eang sy'n cynnwys pentrefi Adpar, Capel Iwan a Llandyfriog. Daw nifer arwyddocaol o'r disgyblion o du allan i'r dalgylch. Mae 12 o ddosbarthiadau yn yr ysgol. Mewn wyth dosbarth, gan gynnwys y disgyblion dan 5 oed, Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr addysgu, tra bod y pedwar dosbarth arall yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg.

Mae 284 o ddisgyblion 3 i 11 oed ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 14 o blant yn y feithrinfa. Mae'r ysgol wedi gweld twf yn ei niferoedd dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Ar hyn o bryd, mae gan 11.6% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sydd yn sylweddol is na'r cyfartaledd yn ysgolion Cymru.

Mae oddeutu 22% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Gwyn Prydeinig yw ethnigrwydd bron pob un o'r disgyblion. Mae tua 23% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn eu cartrefi.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2007. Ymgymerodd y pennaeth presennol â'i swydd yn Tachwedd 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Y Ddwylan yn 2013-2014 yw £3,522. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin yw £8,152 a'r lleiafswm yw £2,941. Mae Ysgol Y Ddwylan yn safle 67ain o'r 106 o ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson;
- athrawon yn modelu iaith glir, sy'n cyfrannu'n sylweddol at safonau iaith lafar;
- yr ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel;
- y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau;
- ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda; a bod
- partneriaethau â'r gymuned yn dda.

Fodd bynnag:

- mae safonau disgyblion dros gyfnod yn gyson is mewn Saesneg a Chymraeg ail iaith o'u cymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg;
- nid oes digon o amrywiaeth o fewn y cynlluniau i gyfarfod ag anghenion grwpiau penodol;
- nid oes gan fwyafrif y disgyblion ddealltwriaeth ddigon cadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith;
- nid yw'r disgyblion mwyaf galluog yn cyflawni eu llawn botensial; ac
- mae presenoldeb wedi bod yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn pedair o'r pum mlynedd diwethaf.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd bod:

- strwythur rheolaethol addas gan yr ysgol;
- rhan fwyaf y staff yn rhannu gweledigaeth ac amcanion yr ysgol;
- gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth berthnasol o'u rolau a'u cyfrifoldebau; a bod
- ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr o'r gymuned yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion.

Fodd bynnag:

- nid yw'r aelodau'r uwch dim rheoli wedi datblygu eu rôl fel arweinwyr strategol yn llawn;
- nid yw'r ysgol yn cyfathrebu'n ddigon effeithiol gyda rhieni;
- nid yw'r arweinwyr yn cydlynu gweithgareddau hunanarfarnu'n ddigon effeithiol i sicrhau darlun cynhwysfawr a chywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol; ac
- nid yw'r cynllun datblygu yn cynnig arweiniad priodol i sicrhau gwelliant.

## Argymhellion

A1 Codi safonau yn Saesneg a Cymraeg Ail Iaith

A2 Gwella lefelau presenoldeb y disgyblion

A3 Adolygu a mireinio'r drefn o adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac adolygu'r trefniadau ar gyfer llunio'r targedau yn eu cynlluniau datblygu unigol

A4 Mynd i'r afael ar frys â'r mater sy'n ymwneud â iechyd a diogelwch

A5 Cryfhau cyfrifoldebau arweinyddiol aelodau'r uwch dîm rheoli fel eu bod yn gweithredu'n fwy strategol

A6 Sicrhau cynllun datblygu ysgol sy'n gadarn seiliedig ar ddeilliannau'r broses hunanarfarnu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Ysgol Y Ddwylan yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn eu gwersi, a thros gyfnod, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn perthynas â'u hoed a'u gallu. Maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn llwyddiannus ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r hyn maent wedi'i ddysgu. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion wedi datblygu eu medrau meddwl yn briodol, yn caffael gwybodaeth yn bwrpasol ac yn cymhwyso'r rhain yn addas mewn sawl pwnc. Er bod y disgyblion yn cyflawni gwaith o safon briodol mewn gwersi ac mewn llyfrau, mae anghysondeb yn y safonau trwy'r ysgol, yn enwedig mewn Saesneg ar draws yr ysgol. Mae hefyd gormod o amrywiad mewn safonau o fewn gwersi a llyfrau rhwng dosbarthiadau.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau llythrennedd sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac yn barod i gynnig ymatebion llafar. Maent yn meithrin eu medrau llafar cychwynnol yn y Gymraeg yn dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus ar lafar yn y ddwy iaith. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn medru siarad am eu gwaith yn hyderus. Gallant fynegi barn am wahanol faterion sydd o ddiddordeb iddyn nhw a thrafod syniadau newydd yn gyson.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen yn y ddwy iaith. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn darllen testunau syml yn gywir. Defnyddiant strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen ystod briodol o destunau yn gywir, yn hyderus ac maent yn medru trafod nodweddion amrywiaeth o lyfrau ac awduron yn y ddwy iaith.

Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith yn llyfrau cyfredol disgyblion ar draws yr ysgol yn dda. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cychwynnol cadarn wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn medru ysgrifennu'n syml ac yn weddol gywir mewn ystod o ffurfiau. Mae disgyblion yn parhau i wneud cynnydd priodol trwy gyfnod allweddol 2, lle mae'r mwyafrif yn ysgrifennu'n gywir yn y ddwy iaith ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw eu gallu i ysgrifennu yn greadigol ac yn estynedig yn y ddwy iaith wedi ei ddatblygu'n ddigonol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Er enghraifft, gall llawer o ddisgyblion adio a thynnu yn gywir gan ddefnyddio degau ac unedau, neu gwblhau siart bar yn gywir. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn dda i ddatrys problemau mathemategol syml mewn meysydd dysgu eraill ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau mewn rhifedd yn dda. Mae llawer o'r disgyblion yn siarad yn briodol am rifedd ac yn defnyddio ystod o ddulliau cyfrifo yn gywir ar gyfer problemau rhif. Nid

yw disgyblion mwy galluog yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol nac yn eu trosglwyddo yn hyderus i feysydd pwnc eraill.

Mae mwyafrif y disgyblion y mae'r Gymraeg yn ail iaith iddynt yn gallu ymateb i gyfarwyddiadau syml yn addas. Fodd bynnag, nid yw medrau darllen ac ysgrifennu mwyafrif y disgyblion wedi eu datblygu yn llawn. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn cael anawsterau dwyn i gof eu dysgu blaenorol a chymhwyso hynny wrth fynd ati i ysgrifennu yn y Gymraeg.

Mae y rhan fwyaf o'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn y targedau a gytunwyd iddynt. Nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent yn y mwyafrif o wersi.

Yn gyffredinol, yn y Cyfnod Sylfaen yn 2013, mae perfformiad yr ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg yn amrywio. Mae hyn yn wir ar gyfer cyfran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5 neu uwch) a'r gyfran a gyflawnodd lefelau uwch. Roedd cyflawniad disgyblion ar y deilliant disgwyliedig yn y Gymraeg yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran yr hawl i ginio am ddim. Serch hynny, roedd cyflawniad disgyblion mewn Saesneg yn is nag ysgolion y teulu ac ysgolion tebyg o ran cinio am ddim ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefelau uwch.

Dros gyfnod o ddwy flynedd, o gymharu â'r canrannau cenedlaethol, yn gyffredinol mae'r bechgyn yn cyflawni'n well na'r merched ar ddeilliant 5. Mae'r bechgyn hefyd yn well na'r merched ar y ddeilliant 6 mewn datblygiad iaith Saesneg a mathemateg.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad (y dangosydd pwnc craidd) yn 2013 yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Er bod y duedd yn anwastad dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae canlyniadau disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dangos cynnydd graddol. Serch hynny, nid yw perfformiad cyffredinol yr ysgol dros y cyfnod hwn yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion â lefelau tebyg o ran hawl i ginio am ddim. Ac eithrio'r Gymraeg ble mae'r ysgol yn y 50% uchaf, mae'r canlyniadau yn gosod yr ysgol yn y 50% isaf yng Nghymru ym mhob pwnc yn 2013.

Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch (lefel 5) mewn mathemateg yn uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu ond yn is mewn Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth. Mae cyflawniad y disgyblion yn y lefelau uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% isaf yng Nghymru, gyda'r Gymraeg ymhlith y 25% isaf.

Dros gyfnod o bedair blynedd, o gymharu â'r canrannau cenedlaethol, yn gyffredinol mae'r merched yn perfformio'n gryfach na'r bechgyn. Nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng cyrhaeddiad disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim a gweddill disgyblion yr ysgol.

### Lles: Digonol

Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a gwella ffitrwydd yn rheolaidd. Maent yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiol

weithgareddau i hybu hyn ymhellach. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod y gallant droi at aelodau staff a ffrindiau am gymorth pe byddai angen. Trwy'r ysgol, mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda. Mae'r disgyblion yn dangos parch a chwrteisi at gyfoedion ac oedolion yn y dosbarthiadau ac yn ystod amser chwarae.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae canran presenoldeb disgyblion wedi bod yn is nag mewn ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion â hawl i ginio am ddim. Mewn tair allan o'r pedair mlynedd ddiwethaf, mae wedi bod ymysg y 25% isaf o ysgolion tebyg. Mae hefyd yn is na chanrannau'r teulu a Chymru gyfan. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb a chymhelliant yn eu gwaith ac maent yn dangos balchder a hyder wrth ymgymryd â'u gweithgareddau.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn weithgar iawn ac maent yn mwynhau cydweithio â staff yr ysgol i ysgwyddo cyfrifoldebau a datblygu eu hysgol ymhellach. Cefnogir elusennau cenedlaethol a rhyngwladol gan y disgyblion, ac mae hyn yn codi eu hymwybyddiaeth o anghenion pobl eraill yn effeithiol iawn. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion sylfeini da ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r ysgol. Maent yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol drwy gyfrannu at ystod o weithgareddau yn eu cymuned leol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn cynnig gweithgareddau sy'n bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol. Fodd bynnag, nid oes digon o amrywiaeth o fewn y cynlluniau i gyfarfod ag anghenion grwpiau penodol. Nid yw'r holl ddisgyblion yn cael eu herio'n ddigonol i wneud cynnydd disgwyliedig.

Mae'r ysgol/athrawon yn cynllunio'n glir ar gyfer datblygu'r medrau allweddol ar draws holl bynciau'r ysgol. Mae'r gweithgareddau menter llwyddiannus a gynhaliwyd yn enghreifftiau o'r cynlluniau hyn yn rhoi sylw teilwng i agweddau megis llythrennedd a medrau meddwl.

Mae'r ysgol yn atgyfnerthu profiadau dysgu y disgyblion drwy drefnu nifer o ymweliadau allanol buddiol megis ymweliad â'r eglwys i ddysgu am wasanaethau bedydd, a thaith i gastell cyfagos fel rhan o astudiaeth o'r Celtiaid. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn trefnu nifer o weithgareddau allgyrsiol priodol megis clwb mwy abl a thalentog a gweithgareddau i hybu ffitrwydd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn dda. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd i'r disgyblion gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau diwylliannol perthnasol yn y gymuned leol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi gwreiddio'n gadarn yn yr ysgol. Trwy weithgareddau trawsgwricwlaidd, caiff y disgyblion brofiadau sydd yn magu dealltwriaeth fyw o faterion cynaliadwy a

phwysigrwydd parchu pobl o bob rhan o'r byd. Mae'r ysgol yn sicrhau y daw disgyblion yn gyfarwydd ag amgylchiadau, arferion a thraddodiadau gwahanol wledydd fel Lesotho. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu cysylltiadau Ewropeaidd gyda phum gwlad arall. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd eang i ddisgyblion ehangu eu gwybodaeth am wledydd a diwylliannau eraill.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion. Mae'r athrawon yn modelu iaith glir, sy'n cyfrannu'n sylweddol at safonau iaith lafar.

Pan mae'r addysgu ar ei orau, mae cyflymder da i'r gwersi. Yn yr enghreifftiau hyn, mae athrawon yn cynllunio'n ofalus, yn holi'n fedrus ac yn cyfeirio at ddysgu blaenorol i hybu dilyniant yn y dysgu. Yn y gwersi lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae rhediad y wers yn arafu ac nid yw'r gweithgareddau yn ymestyn disgyblion o bob gallu yn llawn. Nid yw tasgau bob amser yn herio disgyblion ddigon, yn enwedig y rhai mwy abl, ac nid yw'r disgyblion yn derbyn digon o gyfleoedd i ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae cydweithio llwyddiannus rhwng llawer o'r athrawon a'u cynorthwywyr dysgu sy'n hybu cefnogaeth addas i unigolion a grwpiau penodol. Mae'r athrawon yn rhannu nodau addysgol yn gyson â'r disgyblion ac mae rhai o ddisgyblion hynaf yr ysgol yn dechrau gosod eu nodau addysgol eu hunain. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn cynnig sylwadau ar ddiwedd y gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r sylwadau bob amser yn ddigon penodol ac nid ydynt yn rhoi digon o arweiniad i'r disgyblion i ddeall sut i wella eu gwaith. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n briodol, ond nid ydynt yn gyson dda ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn dechrau defnyddio system electronig i dracio cynnydd disgyblion, ond nid yw yn defnyddio canfyddiadau'r asesu yn ddigon effeithiol i osod targedau i grwpiau penodol er mwyn gwella safonau.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth da am gyflawniadau, rhinweddau personol a datblygiad eu plant ac, yn gyffredinol, mae'r adroddiadau diwedd blwyddyn yn cynnwys sylwadau ar gynnydd a'r ffordd ymlaen.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, gofalgar a chynhwysol. Mae gan yr ysgol y trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Anogir y disgyblion i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol a'r gymuned ehangach. Caiff ymwybyddiaeth foesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion ei datblygu'n llwyddiannus mewn sesiynau addoli ar y cyd ac yn ystod y gwersi. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn cyfrannu'n effeithiol at les y disgyblion. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn gwybod beth i'w wneud pe bai achosion o fwlio yn codi. Mae perthynas waith gadarn yn bodoli rhwng y disgyblion a'r oedolion, sydd wedi'i seilio ar barch a chwrteisi. Mae gwasanaethau ysgol gyfan yn creu awyrgylch priodol ac ethos myfyrgar.

Mae'r ysgol yn cysylltu'n rheolaidd gydag asiantaethau arbenigol megis gwasanaeth lles addysg, gwasanaethau meddygol a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r gefnogaeth bersonol a'r gofal yn dda gyda'r holl staff yn sicrhau chynhwysiant cymdeithasol ar gyfer y disgyblion o fewn gweithgareddau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion penodol megis dyslecsia neu agweddau o ddatblygu llefaredd yn dda.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn addas. Mae cynllun datblygu unigol ar gael ar gyfer pob disgybl sydd yn cael eu cynnwys ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mae llawer o'r targedau yn y cynlluniau yn rhy amwys. Nid ydynt bob amser yn fesuradwy, nac yn ddigon eang wrth gyfeirio at anghenion penodol y disgyblion.

Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hynny sydd ag anghenion mwy dwys yn bodloni eu gofynion yn briodol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae Ysgol Y Ddwylan yn cynnig awyrgylch hapus a chartrefol a cheir yma ethos gofalgar. Mae'n sicrhau bod pob disgybl yn cael cynnig ystod briodol o gyfleoedd a phrofiadau megis cystadlaethau chwaraeon a theithiau i ehangu profiadau dysgu.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i'r disgyblion fod yn weithredol wrth lunio rheolau dosbarth. Mae trefniadau effeithiol i reoli bwlio pan fo'n digwydd.

Nodwyd materion sy'n ymwneud â diogelwch yn ystod yr arolygiad. Amlinellwyd hyn i'r llywodraethwyr.

Ceir cyflenwad da o adnoddau ar gyfer gwersi a gweithgareddau cyffredinol. Mae'r arddangosfeydd o waith a chyfrifoldebau'r disgyblion ar hyd muriau'r ysgol yn ddeniadol, lliwgar ac amrywiol. Mae hyn yn ysgogi'r dysgu.

Gwneir defnydd effeithiol o'r safle allanol i dyfu ffrwythau a llysiau i ychwanegu at brofiadau'r disgyblion. Mae'r cyfleusterau'n lân ac addas a chaiff y safle a'r adeilad ei gadw'n raenus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae strwythur rheolaethol addas gan yr ysgol ac mae swydd ddisgrifiadau cymwys gan arweinwyr a staff, sydd yn nodi eu rolau a chyfrifoldebau'n glir. Serch hynny, nid yw pob aelod o'r tîm rheoli yn deall eu rôl strategol ar draws yr ysgol ac nid yw disgwyliadau pob arweinydd yn ddigon uchel.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn rhannu gweledigaeth ac amcanion yr ysgol, sydd yn

gyffredinol yn canolbwyntio'n dda ar wella safonau a lles y disgyblion. Mae digon o bwyslais ar y prif flaenoriaethau mewn cyfarfodydd athrawon a chyfarfodydd staff y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw'r tîmau eraill yn cwrdd yn ddigon rheolaidd er mwyn trafod gwella safonau, deilliannau disgyblion a monitro datblygiadau newydd. O ganlyniad, nid yw'r ysgol wedi bod yn ddigon llwyddiannus wrth wneud gwelliannau mewn rhai meysydd pwysig, gan gynnwys Saesneg a Chymraeg ail iaith.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth briodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn gefnogol ac yn herio'r ysgol i hybu gwelliant mewn safonau. Maent yn derbyn gwybodaeth briodol mewn cyfarfodydd a thrwy adroddiadau ysgrifenedig y pennaeth. Er bod yr adroddiadau'n dangos cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r ysgol, nid ydynt bob amser yn canolbwyntio'n ddigon da ar berfformiad disgyblion.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr a llywodraethwyr yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn briodol. Mae ffocws addas ar wella llythrennedd a rhifedd a datblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi ei ddatblygu'n llwyddiannus ac wedi cael effaith dda ar ddeilliannau disgyblion.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen addas ar y cyfan ac mae'r pennaeth wedi rhannu'r adroddiad yn briodol gyda'r staff a'r llywodraethwyr. Maent wedi trafod yr adroddiad ac wedi ei addasu'n briodol. Mae gan yr ysgol amserlen ddefnyddiol sydd yn cyfeirio at ffocws penodol pob tymor.

Mae arweinwyr ac athrawon yn arsylwi gwersi, monitro cynllunio a thrafod gwaith y disgyblion. Serch hynny, nid ydynt yn cydlynu gweithgareddau hunanarfarnu'n ddigon effeithiol i sicrhau bod gan arweinwyr ddarlun cynhwysfawr a chywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Er enghraifft, er bod arweinwyr yn ystyried data'n flynyddol, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar dracio grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae hyn yn cynnwys y disgyblion hynny sydd yn cyrraedd neu symud i mewn i'r ysgol o ysgolion eraill yn ystod cyfnod allweddol 2. O ganlyniad, mae lleiafrif o ddisgyblion yn tangyflawni.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn nodi rhai blaenoriaethau pwysig, ond mae gormod o dargedau yn y cynllun cyfredol. Er bod cyfrifoldebau'r staff yn glir, ambell waith nid yw dull monitro'r targedau'n amlwg ac nid yw'r meini prawf llwyddiant bob amser yn ffocysu ar godi safonau disgyblion. O ganlyniad, nid yw'r cynllun yn cynnig arweiniad priodol i arweinwyr na staff ar gyfer sicrhau gwelliant. Nid oes cysylltiad clir na dilyniant amlwg rhwng y ddau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau gyda rhieni, y gymuned ac eraill, yn cyfrannu'n effeithiol at fywyd yr ysgol. Mae'r cyfarfodydd ar y cyd gyda staff yr ysgol feithrin, darpar rieni a gwasanaethau cyhoeddus yn sicrhau bod y plant yn ymgartrefu yn fuan pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol.

Ar y cyfan, mae gan yr ysgol bartneriaethau llwyddiannus gyda rhieni a gofalwyr ac mae'r disgyblion yn elwa o'u cyfraniad at weithgareddau fel gwella'r ardaloedd y tu

allan i'r ysgol ac wrth godi arian i gael adnoddau newydd priodol. Serch hynny, nid yw ychydig o'r rhieni yn cael digon o wybodaeth am weithgareddau'r ysgol ac nid yw eu barn bob amser yn cael ystyriaeth briodol.

Mae cysylltiadau ag asiantaethau allanol wedi arwain at wella lles grwpiau o ddisgyblion. Er enghraifft, mae cydweithio agos gyda'r gwasanaeth cefnogi disgyblion sydd ag anghenion ymddygiad wedi sicrhau cefnogaeth dda i ddisgyblion penodol.

Mae ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr o'r gymuned yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n dda gydag ysgolion cyfagos a'r ysgol uwchradd. Mae'r staff yn elwa o'r profiadau hyn ac yn cynyddu eu harbenigedd wrth asesu gwaith disgyblion a rhannu arfer dda. Mae'r trefniadau trosglwyddo ar gyfer y clwstwr o ysgolion a'r ysgol uwchradd yn galluogi'r disgyblion hŷn i baratoi yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn elwa o'i chyswllt gyda cholegau addysg bellach, colegau addysg uwch a sefydliadau hyfforddi athrawon a chynorthwywyr. Mae'r partneriaethau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad proffesiynol athrawon. Mae'r gwaith gyda Phrifysgol Lerpwl o ran cyd-gynhyrchu esiamplau gwaith wedi dylanwadu'n effeithiol ar addysgu athrawon ac wedi ei rannu ag ysgolion eraill.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli eu hadnoddau'n briodol. Mae'r corff llywodraethol a'r is-bwyllgor cyllid yn cydweithio'n effeithiol â swyddog cyllid yr awdurdod i fonitro'r gyllideb. Maent yn gwneud penderfyniadau cyllidol addas yn ôl anghenion a blaenoriaethau'r ysgol. Ar ôl cyfnod o danwario sylweddol, mae arweinwyr wedi lleihau'r gwarged i swm dderbyniol, gan wella'r ardal tu allan, datblygu ystafell ychwanegol a phrynu adnoddau TGCh. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol ddigon o staff addysgu sy'n cael eu defnyddio'n briodol. Er hynny, nid yw'r ysgol yn manteisio ar gryfderau rhai o'r staff i sicrhau fod pob disgybl yn cyrraedd safonau disgwyliedig. Mae cynorthwywyr yn cefnogi'r addysgu a'r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn dda. Serch hynny, nid yw'r trefniadau presennol yng nghyfnod allweddol 2 mor effeithiol.

Mae'r ysgol yn ymateb i ofynion statudol ar gyfer rheoli perfformiad i athrawon yn briodol. Mae targedau'r staff yn seiliedig ar flaenoriaethau'r ysgol yn ogystal ag anghenion proffesiynol unigolion. Nid oes ond ychydig o rwydweithiau pwrpasol o arfer broffesiynol gydag ysgolion eraill. Serch hynny, mae staff wedi ymweld ag ysgolion eraill i weld arfer dda mewn agweddau'r Cyfnod Sylfaen ac mae'r ymweliadau hyn wedi cael effaith bositif ar ddatblygiad y Cyfnod Sylfaen ac ar gyrhaeddiadau ddisgyblion.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Ar gyfer y lefel ddisgwyliedig (deilliant 5 neu'n uwch) yn nangosydd y Cyfnod Sylfaen, roedd canlyniadau'r disgyblion ychydig yn is na chyfartaledd ysgolion eraill yn y teulu. Mae cyflawniadau disgyblion yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn datblygiad iaith a llythrennedd Cymraeg a datblygiad personol a chymdeithasol ac ychydig yn is na chyfartaledd y teulu mewn datblygiad mathemategol. Fodd bynnag, mae cyflawniad disgyblion mewn datblygiad iaith a llythrennedd Saesneg yn sylweddol is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru.

Mae cyflawniad y disgyblion ar y lefelau uwch (deilliant 6) yn sylweddol uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn datblygiad iaith a llythrennedd Cymraeg ac mewn datblygiad mathemategol, ychydig yn is na'r teulu ond uwch na Chymru, mewn datblygiad personol a chymdeithasol, ac yn is na'r teulu a Chymru mewn datblygiad iaith a llythrennedd Saesneg.

O'u cymharu gydag ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, mae cyflawniadau disgyblion yn y 25% uchaf mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu Cymraeg ac yn y 25% isaf mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu Saesneg. Mae cyflawniad mewn datblygiad personol a chymdeithasol, mathemateg a dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn gosod yr ysgol ymysg y 50% isaf yng Nghymru. Mae cyflawniad y disgyblion ar y lefelau uwch (deilliant 6) yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf yng Nghymru ar gyfer iaith, llythrennedd a chyfathrebu Cymraeg a mathemateg, yn y 50% uchaf ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol ac yn y 50% isaf ar gyfer iaith llythrennedd a chyfathrebu Saesneg.

Yn gyffredinol, roedd y cyfran o ddisgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013 ar draws y meysydd dysgu yn is nag yn y flwyddyn gynt. Serch hynny, roedd cyflawniad disgyblion ar y deilliant uwch (deilliant 6) yn gyffredinol well nag yn 2012. Dros gyfnod o ddwy flynedd, o gymharu â'r canrannau cenedlaethol, yn gyffredinol mae'r bechgyn yn cyflawni'n well na'r merched ar ddeilliant 5. Mae'r bechgyn llawer gwell na'r merched ar y ddeilliant 6 mewn datblygiad iaith Saesneg a mathemateg.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad (y dangosydd pwnc craidd) yn 2013 yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Mae'r tuedd yn anwastad dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canlyniadau dros gyfnod yn dangos cynnydd graddol. Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4, mewn Cymraeg a gwyddoniaeth wedi bod yn debyg neu'n uwch na chyfartaledd y teulu am y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn 2013, roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn Saesneg, mathemateg ar dangosydd pwnc craidd yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru gyfan.

Mae'r gyfran sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig (Lefel 5) ychydig yn uwch na chyfartaledd y teulu yn mathemateg, yn is mewn Saesneg a gwyddoniaeth, ond yn sylweddol is mewn Cymraeg ac yn llai na chyfartaledd Cymru mewn tri phwnc ac eithro mathemateg sydd ychydig yn uwch na Chymru.

Wrth gymharu cyflawniad yr ysgol ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 wedi amrywio rhwng y 50% uchaf a'r 50% isaf dros y pedair blynedd flaenorol ym mhob pwnc yn cynnwys y dangosydd pwnc craidd. Mae perfformiad yr ysgol yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% uchaf o ysgolion tebyg yn y Gymraeg, yn y 50% isaf ar gyfer gwyddoniaeth ac yn y 25% isaf ar gyfer Saesneg, mathemateg a'r dangosydd pwnc craidd.

Wrth gymharu cyflawniad yr ysgol ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae cyflawniad yr ysgol ar lefel 5 yn amrywio. Mae cyrhaeddiad yn y Gymraeg a'r Saesneg wedi gosod yr ysgol yn y 50% isaf yn y ddwy iaith am y 4 mlynedd diwethaf. Mae mathemateg wedi bod yn y 50% isaf am 3 o'r 4 blynedd diwethaf. Fodd bynnag, disgynnodd perfformiad yr ysgol o'r 25% uchaf yng Nghymru yn 2010, i'r 50% isaf yn 2013 mewn gwyddoniaeth.

Dros gyfnod o bedair blynedd, nid oes gwahaniaethau amlwg yng nghyflawniad y bechgyn a'r merched. Serch hyn, o gymharu â'r canrannau cenedlaethol, yn gyffredinol mae'r merched yn perfformio'n well na'r bechgyn ym mhob pwnc yn 2013, gyda'r gwahaniaeth mwyaf i'w weld yng nghyflawniad y lefelau uwch.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

### Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 135 | 134<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 132 | 116<br>88%<br>92% | 16<br>12%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 134 | 128<br>96%<br>97% | 6<br>4%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 135 | 133<br>99%<br>98% | 2<br>1%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 134 | 130<br>97%<br>96% | 4<br>3%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 131 | 128<br>98%<br>96% | 3<br>2%<br>4% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 135 | 133<br>99%<br>99% | 2<br>1%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 134 | 133<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 135 | 127<br>94%<br>91% | 8<br>6%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 134 | 126<br>94%<br>95% | 8<br>6%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 132 | 113<br>86%<br>78% | 19<br>14%<br>22% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 134 | 122<br>91%<br>84% | 12<br>9%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 31 | 15 | 12 | 3 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 48% | 39% | 10% | 3% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 31 | 21 | 7 | 2 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 68% | 23% | 6% | 3% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 31 | 19 | 10 | 2 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 61% | 32% | 6% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 31 | 15 | 10 | 2 | 1 | 3 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 48% | 32% | 6% | 3% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 31 | 11 | 11 | 1 | 3 | 5 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 35% | 35% | 3% | 10% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 31 | 14 | 10 | 4 | 0 | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 45% | 32% | 13% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 31 | 16 | 10 | 0 | 0 | 5 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 52% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 28 | 9 | 12 | 1 | 0 | 6 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 32% | 43% | 4% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 31 | 13 | 9 | 2 | 0 | 7 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 42% | 29% | 6% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 31 | 14 | 12 | 2 | 0 | 3 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 45% | 39% | 6% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 31 | 15 | 12 | 1 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 48% | 39% | 3% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 29 | 9 | 6 | 2 | 0 | 12 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 31% | 21% | 7% | 0% | | |
| | | 50% | 35% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 29 | 8 | 13 | 2 | 3 | 3 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 28% | 45% | 7% | 10% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 31 | 17<br>55% | 8<br>26% | 3<br>10% | 3<br>10% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 31 | 11<br>35% | 13<br>42% | 4<br>13% | 1<br>3% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 31 | 13<br>42% | 13<br>42% | 2<br>6% | 0<br>0% | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 26 | 6<br>23% | 10<br>38% | 1<br>4% | 1<br>4% | 8 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 31 | 14<br>45% | 10<br>32% | 3<br>10% | 0<br>0% | 4 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 31 | 13<br>42% | 10<br>32% | 2<br>6% | 3<br>10% | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 33% | 3% | 1% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Meinir Wynne Howells | Arolygydd Cofnodol |
| Sarah Jane Morgan | Arolygydd Tîm |
| William Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Anthony Bate | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Delyth Kirkman | Arolygydd Cymheiriaid |
| Helen Davies | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.